

Cyngor Cymuned Llanystumdwy

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Gorffennaf 7fed, 2016 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); Dafydd Williams; Margaret Griffith; Naomi Jones; Trefor W Jones; Tegid Jones; Sian Angharad Parry; Ifor Wyn Davies; Aled Lloyd Evans; Thomas Prys Jones a'r Clerc.

1. Ymddiheuriadau.: Y Cynghorwyr Gwilym M Thomas (Is gadeirydd); Elis Gwyn Jones; Alwen Evans; Anwen Jones a William Ifor Hughes.

2. Arwyddwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan y Cadeirydd.

3. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Fehefin 2il, 2016 gydag un cywiriad;rhif 7 Cyngor Gwynedd, rhif 7 lloches bws ger Groeslon Refail Llangybi,nid Troed y Garn.

4. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol.Neb yn datgan buddiant personol.

6. Cyngor Gwynedd.

1. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; gohebiaeth ynghylch Arwydd Pencaenewydd, Arwyddbost Groeslon Brynrhydd a Groeslon Castellcoed. Penderfynwyd derbyn.

2. Cefnogaeth Gorfforaethol; Toiled/au Cyhoeddus yn eich Tref/Cymuned. Roedd cais gan Gyngor Gwynedd am £2,000- y flwyddyn tuag at gostau cadw'r toiled ar agor yn Llanystumdwy. Cost gweithredu blynyddol y toiled ar gyfartaledd ydi £3,713.61c. Penderfynwyd peidio cyfrannu a thynnu sylw'r Cyngor Sir at gyflwr yr adeilad ac nad oes cyfleuster golchi dwylo yn rhan y dynion o'r toiled.

3. Arloesi Gwynedd Wledig; Galwad Agored.Penderfynwyd peidio bod yn rhan o weithio gydag Arloesi Gwynedd Wledig i dreialu a dysgu am fodelau gwahanol o drosglwyddo gwasanaethau i drigolion lleol.

4a. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Dosbarth 111 ger yr eiddo a adwaenir fel Hendy, Pencaenewydd) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2016. Derbyniwyd er gwybodaeth.

b.Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi- Ddosbarth ger yr eiddo a adwaenir fel Llwyn Celyn, Llangybi) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2016 – Ail Rybudd.Derbyniwyd er gwybodaeth.

c. Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Ffordd Ddi- Ddosbarth dros y ffordd i Gapel Brynengan. Derbyniwyd er gwybodaeth.

5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Biniau Halen.Y ddiweddaraf yn cynnwys mewnbwn gan Un Llais Cymru. Penderfynwyd derbyn pris Cyngor Gwynedd o'u llenwi am flwyddyn ac ail asesu'r sefyllfa ym mis Mehefin 2017. Deallir mai pris Cyngor Gwynedd am barhau i wasanaethu'r biniau halen fydd £80- (clwstwr o finiau, isafswm o 3).

6.Gwasanaeth Democraataidd,Swyddog Cefnogi Aelodau;Ymchwiliad Gorfodaeth Stryd.Penderfynwyd cytuno bod angen bod yn llawer mwy cadarn wrth daclo pobl sy'n gollwng sbwriel neu'n gadael i'w cŵn faeddu llwybrau a phalmentydd; cytuno y dylai Cyngor Gwynedd roi dirwy yn y fan a'r lle i unrhyw un sy'n cael ei ddal yn cyflawni trosedd amgylcheddol a

chytuno os nad oes gan Gyngor Gwynedd yr arian i fynd ar ôl a chosbi pobl sy'n drwg weithredu yn hyn o beth, y dylent fod yn barod i ddefnyddio cwmni allanol/masnachol i wneud y gwaith. Cymerir yn ganiataol y byddai unrhyw gwmni allanol/masnachol yn gallu cyfathrebu'n ddwyieithog gyda'r cyhoedd.

7. Cyngor Gwynedd – 1. Cais rhif C16/0653/41/LL- Ail gyflwyniad o gais C15/1082/41/LL ar gyfer codi estyniad deulawr; Ty'n Coed Uchaf, Chwilog. Cefnogwyd.

*Trwy ganiatad y Cadeirydd

2. Cais rhif C16/0705/41LL – Cais i drosi adeilad allanol i dy fforddiadwy 3 llofft; Penarth Fawr, Chwilog. Penderfynwyd cefnogi.

8. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Llwybr beics rhwng Llanystumdwy a Chricieth. Mae'r gwaith barbio wedi cael ei wneud erbyn hyn. Derbyniwyd.

Chwilog:

1. Wedi torri gwair mewn llawer lle erbyn hyn ond heb dorri o gwmpas yr arwyddion yn Chwilog a llawer man arall. Penderfynwyd anfon at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt drefnu torri o gwmpas yr arwyddion a'r gwrychoedd uwchben.
2. Torri gwellt ger mynedfa stâd Cae Capel, Chwilog. Penderfynwyd cysylltu gyda pherchennog y tir a gofyn iddo dorri'r gwellt.
3. Cwyn am y ceir sydd wedi parcio ar y palmant ar ochr Capel Siloh y pentref. Penderfynwyd tynnu sylw Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd at y gwyn.

Pencaenewydd;

Llangybi:

Cyflwr llwybr Pont Merchaid. Penderfynwyd cael cyfarfod safle nos Lun, Gorffennaf 18fed, y Cynghorwyr Thomas Prys Jones, Tegid Jones, Aled Lloyd Evans a'r Clerc ac adrodd yn ôl yng nghyfarfod mis Medi'r Cyngor

9. Cynhadledd SLCC i'r Clerc yn Llandudno ddydd Mercher, Medi 14eg, 2016.

Penderfynwyd cefnogi'r cais a thalu'r swm am gofrestru sef £69- +TAW a thalu costau mynychu. Bwriedir gwneud cais am fwrsari i Lywodraeth Cymru sef 50% o'r ffi cofrestru.

Materion Ariannol.

10. The Pensions Regulator. Cynigiodd y Cynghorydd Aled Lloyd Evans roi cymorth i'r Clerc wrth ymdrin â rhan nesaf y camrau gweithredu. Penderfynwyd derbyn.

11. Adroddiad ariannol ar lafar. Derbyniwyd yr adroddiad.

12. Anfonebau angen eu talu

- a. D E Williams am osod a chyflenwi 3 set o folltau yn Llanystumdwy a 2 set o folltau yn Chwilog; £60-+ TAW, cyfanswm £72-. Penderfynwyd ei dalu; taliad siec rhif 100935.

- b. Un Llais Cymru; cwrs ar Sgiliau Cadeirio yng Nghaernarfon ar Fai 26ain, 2016; £35- - Bwrsari £17.50c, cyfanswm £17.50c. Penderfynwyd ei dalu; taliad BACS.
- c. Argraffdy Eryri am arwydd To Isel ar gyfer Lloches Bws Llanybi; £24- + TAW, cyfanswm £28.80c. Penderfynwyd ei dalu; taliad BACS.
- ch. Trefn, am osod yr arwydd yn Lloches Bws Llanybi £17-. Penderfynwyd ei dalu; taliad BACS.
- d. Criccieth Cleaning Ltd., am lanhau'r llochesi bysiau ar Fai 4ydd, 2016, £95-. Penderfynwyd ei dalu; taliad BACS.
- dd. Cyllid EM, treth ar enillion y Clerc; £180-. Penderfynwyd ei dalu; taliad siec rhif 100936.
- e. Cyflog Chwarterol y Clerc net, £720-. Penderfynwyd ei dalu; taliad siec rhif 100937.
- f. Costau Chwarterol y Clerc, £258.43c. Penderfynwyd ei dalu; taliad siec rhif 100938.

13. Caniatâd i'r Clerc dalu biliau yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Penderfynwyd rhoi caniatâd.

14. Caniatâd i roi sylwadau ar geisiadau cynllunio ddaw yn ystod misoedd Gorffennaf ac Awst ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd/Is gadeirydd. Penderfynwyd rhoi caniatâd.

15. Gohebiaeth oddi wrth Cylch; Asesiad Effaith Ieithyddol Annibynnol o'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd llythyr ac atodiadau yn dangos ymchwil helaeth a manwl i hyn wedi'i wneud ar ran Cylch yr Iaith, Dyfodol i'r Iaith, Canolfan Hanes Uwch Gwyrfai a Phwyllgor Rhanbarth Gwynedd/Môn Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Penderfynwyd anfon llythyr at yr Arolygwyr sydd wedi cael eu penodi i gynnal asesiad annibynnol o gadernid cyffredinol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn yn cefnogi ac yn llongyfarch y rhai wnaeth yr ymchwil am gyflwyno ffeithiau i gefnogi teimpladau trethdalwyr Gwynedd a Môn. Penderfynwyd anfon copi at Mr Ieuan Wyn, Ysgrifennydd, Cylch yr Iaith.

Bydd y Cynghorwyr Margaret Griffith, Aled Lloyd Evans, Thomas Prys Jones a Trefor W Jones yn cyfarfod i roi sylwadau pellach ar y CDLI ar ran y Cyngor yma.

*Trwy ganiatad y Cadeirydd:

16. Gohebiaeth ynghylch Cyllid a Thollau EM Porthmadog. Penderfynwyd derbyn y llythyr oddi wrth Swyddfa Cymru yn dweud y bydd Cyllid a Thollau EM yn gadael yr adeilad ym Mhorthmadog yn 2019/20 ond y byddant yn parhau i fod gyda thim yr iaith Gymraeg.

17. Y Lôn Goed. Daeth cwyn bod rhai yn defnyddio'r Lôn Goed i farchogaeth ceffylau. Penderfynwyd anfon at adran Llwybrau Cyngor Gwynedd yn tynnu eu sylw at hyn, yn pwysleisio mai llwybr troed ydi'r Lôn Goed ac yn gofyn iddynt osod arwyddion i ddweud hynny.

18. Anfoneb Criccieth Cleaning Ltd. am eu gwaith ar y llwybrau, toriad cyntaf llwybrau Ynysgain Bach, Tŷ Newydd, Clawdd Llanw ac Afonwen a thorri llwybr gyferbyn â cheg lôn Abercin; £280- + TAW, cyfanswm £336-. Penderfynwyd ei dalu; taliad BACS.

19. Cyngor Gwynedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Gofal Stryd; Ymgynghoriad Teithio Llesol. Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

20. Ymgynghoriaeth Gwynedd; Adroddiad Archwilio Llifogydd yng Nghricieth.
Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.